# ADOLYGIAD BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT 2025 - 2026



## Trosolwg y Cadeirydd

Dyma fy adroddiad blynyddol terfynol ar ddiwedd fy nghyfnod o dair blynedd yn swydd Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint.  Mae aelodau'r fforwm wedi ymgysylltu'n gadarnhaol a diolchaf iddynt am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad.

Hoffwn gydnabod y gefnogaeth rwyf wedi ei derbyn yn ystod y cyfnod hwn gan swyddogion Mynediad ac Amgylchedd Naturiol y Cyngor a staff cefnogi a thalu teyrnged i'r gwaith rhagorol maent yn ei wneud gydag adnoddau cyfyngedig.  Yn wir maent i'w canmol yn barhaus eu bod yn cyflawni cymaint gyda chyn lleied.  Mae Sir y Fflint yn ffodus i fod â thîm mor ymroddgar a chymwys.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd hwb sylweddol i'r Grant Gwella Mynediad a alluogodd gynnydd sylweddol mewn mynd i'r afael â materion hawliau tramwy yn ymwneud â'r rhwydwaith.

## Rôl y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn gorff statudol a'i ddiben yw i ddarparu cyngor ar reoli a gwella mynediad i gefn gwlad, sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion defnyddwyr (cerddwyr, beicwyr, marchogion ceffylau ayb) a thirfeddianwyr.  Mae'n cynghori'r Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir y Fflint) a chyrff llywodraethol eraill ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, cyfyngiadau ar fynediad ac is-ddeddfau.  Mae'n ystyried materion datblygu cysylltiedig a strategaethau ac yn gwneud sylwadau ar y rhain fel bo'n briodol.

Rwy'n credu mai swyddogaeth bwysig y Fforwm Mynediad Lleol yw monitro darparu adnoddau ar gyfer yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gwasanaethau cefn gwlad gan y Cyngor Sir a monitro darpariaeth y gyllideb o un flwyddyn i'r llall ac i wneud sylwadau os oes angen.

## Cyfansoddiad y Fforwm

Daw cyfansoddiad Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac mae'n un o dri ar hugain o gyrff o'r fath yng Nghymru.

Mae ei aelodaeth yn cynnwys 12-20 o wirfoddolwyr sydd wedi eu dewis o ganlyniad i'w profiad o ran mynediad a rheoli cefn gwlad.  Dylai aelodau adlewyrchu cydbwysedd rhwng tirfeddianwyr a defnyddwyr ac amrywiaeth eang y gymuned y mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn ei gwasanaethu.  Caiff cyfarfodydd eu cynnal 3-4 gwaith y flwyddyn ac yn gyffredinol maent ar agor i'r cyhoedd fel arsylwyr.

**Julian Pellatt**

**Cadeirydd, Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint**

**Chwefror 2026**



**Cyflwyniad i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol a'u diddordebau.**

**Julian Pellatt – Cadeirydd –** Arferai Julian weithio yn y sector awdurdod lleol ar lefel cyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb am Hawliau Tramwy. Mae ganddo ddiddordeb mawr mewn cerdded.

**Huw Morgan – Is-gadeirydd –** Mae'n dirfeddiannwr lleol a Chadeirydd Cyngor Cymuned Nannerch, mae hefyd yn gweithio i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

**Jeff Shone.** Mae'n mwynhau cerdded yn ei amser hamdden ac mae ganddo ddiddordeb mewn hyrwyddo mwy o lwybrau mynediad ar gyfer gwaith. Mae ganddo ddiddordeb mewn llwybrau hanesyddol / cynnal hawliau tramwy presennol neu ail-agor hen hawliau tramwy.

**Shirley Fermor.** Mae'n un o Gerddwyr Clwyd.

**Y Cynghorydd Dave Evans.** Mae'n aelod enwebedig CSyFf a Chadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd.

**Marjorie Thomson**. Cerddwr gyda'r Rainbow Ramblers. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned dros Wernymynydd.

**John Holiday.** Yn cynrychioli diddordebau beicio sy'n ymestyn yn fras o Abergele i'r ffin yng Nghaer ac yn fewndirol ac mae ganddo ddiddordeb mewn unrhyw ddatblygiadau sy'n berthnasol i feicio mewn cyd-destun ehangach.

**Alan Neale.** Mae ganddo ddiddordeb yn ardal Treffynnon. Mae'n cynllunio ac yn arwain grwpiau cerdded.

**Ian Gibbons.** Cyn Raglen Troedio Sir y Fflint.

**Nia Thomas.** Yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus GIG Cymru.

**Johnny Hulson.** Diddordeb mewn bywyd gwyllt. Yn gweithio i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ledled Gogledd Cymru.

**Miranda Dechazal.** Mae ei diddordebau'n cynnwys perchnogaeth tir, Ffermio, Addysg a Cherdded.

**Ed Swan.** Aelod o'r NFU, Perchnogaeth Tir a Ffermio.

**<u>Dyddiadur Cyfarfodydd</u>**

Mae'r Fforwm wedi parhau i fonitro cyflawni prosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac adroddiad blynyddol y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gynnwys swyddogion ac adnoddau ariannol. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn cynnwys nifer o brosiectau gwella mynediad a gaiff eu hariannu gan gyfraniadau Llywodraeth Cymru a chynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu Parc Cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Sawl cynllun Piblinell Dal Carbon yr ymgymrir â hwy yn Sir y Fflint sy'n effeithio ar y rhwydwaith hawliau tramwy, cynnydd y prosiect map digidol ac ymarfer cydgrynhoi map diffiniol. Roedd y Fforwm yn parhau i amlygu gwerth y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, safleoedd Gwasanaeth Ceidwaid Cefn Gwlad ac Isadeiledd Gwyrdd ehangach o fewn y sir a thu hwnt i'w ffiniau fel llwybrau allweddol ar gyfer teithio llesol cyhoeddus a dibenion hamdden.

Amlygwyd pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn y rhwydweithiau hynny gan eu bod yn allweddol i gyflawni amcanion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor.

**9fed Cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol – Gwarchodfa Natur Dyffryn Rhydymwyn**

Mynychodd 10 o unigolion, gyda 5 yn ymddiheuro ac 1 yn arsylwi.

Roedd y cyfarfod hwn yn cynnwys adroddiad blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol, y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Hynet, y prosiect map digidol, cydgrynhoi'r Map Diffiniol a chyflwyniad gan Richard Sumner o Gyfoeth Naturiol Cymru am y Parc Cenedlaethol Newydd. Aeth aelodau ar daith o amgylch Dyffryn Rhydymwyn.

**10fed Cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol –** Parc Gwepra.

Mynychodd 13 o bobl, gyda 3 yn ymddiheuro, a 3 yn arsylwi.

Gwyliodd aelodau gyflwyniad gan Lee Shone, Rheolwr Strategaeth Cludiant ynglŷn â Theithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel. Trafodwyd y Parc Cenedlaethol Newydd ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru.

**11fed Cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol –** Parc Gwepra.

Mynychodd 14 o bobl, gyda 4 yn ymddiheuro, a 2 yn arsylwi.

Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Parc Arfordirol, y gronfa ffyniant gyffredin a gwelliannau i fynediad gan Isobel Smith, Swyddog Datblygu Cefn Gwlad a'r Arfordir. Roedd yn cwblhau tymor y fforwm mynediad lleol.

**Siaradwyr Gwadd a Chyngor.**

Lee Shone – Rheolwr Strategaeth Cludiant – Teithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel.

Isobel Smith – Swyddog Datblygu Cysylltu'r Arfordir a Chefn Gwlad – Parc Arfordirol Sir y Fflint.

Richard Sumner – Cyfoeth Naturiol Cymru – Parc Cenedlaethol Newydd.

## Gwelliannau i'r rhwydwaith.

| Eitem | data 2018 (cofnodwyd ar CAMS) | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2026 | +/- (ar gyfer 2025/26) |
|---|---|---|---|---|
| **Camfeydd** | 3316 | 3129 | 3084 | -45 |
| **Giatiau Mochyn** | 506 | 751 | 786 | +35 |
| **Bylchau** | 186 | 226 | 239 | +13 |
| **Giatiau (<1.2m)** | 152 | 181 | 185 | +4 |
| **Arwyddion ar ymyl ffyrdd** | 1992 | 2068 | 2079 | +11 |
| **Pontydd Trawstiau** | 58 | 65 | 66 | +1 |
| **Pontydd eraill** | 336 | 346 | 343 | -3 |
| **Yr holl giatiau (ac eithrio giatiau mochyn)** | 1501 | 1507 | 1512 | +5 |

**Materion**

| **Chwarter 1af (1 Ebrill – 30 Mehefin)** | | **2il Chwarter (1af Gorffennaf – 30 Medi)** | |
|---|---|---|---|
| Materion a adroddwyd | **82** | Materion a adroddwyd | **98** |
| Materion a adroddwyd yn y chwarter blaenorol (1 Ionawr – 31 Mawrth) | **114** | Materion a adroddwyd yn y chwarter blaenorol | **82** |
| Materion wedi eu datrys | **68** | Materion wedi eu datrys | **63** |
| Materion wedi eu datrys yn y chwarter blaenorol | **163** | Materion wedi eu datrys yn y chwarter blaenorol | **68** |
| **3ydd Chwarter (1 Hydref – 31 Rhagfyr)** | | **4ydd Chwarter (1 Ionawr – 31 Mawrth)*** | |
| Materion a adroddwyd | **63** | Materion a adroddwyd | **54** |
| Materion a adroddwyd yn y chwarter blaenorol | **98** | Materion a adroddwyd yn y chwarter blaenorol | **63** |
| Materion wedi eu datrys | **89** | Materion wedi eu datrys | **113** |
| Materion wedi eu datrys yn y chwarter blaenorol | **63** | Materion wedi eu datrys yn y chwarter blaenorol | **89** |

Yr holl faterion a gofnodwyd 25/26 **297 (**444 yn 2024/25**)** Yr holl faterion a gwblhawyd yn 25/26 **333 (**430 yn 2024/25**)**

| BLWYDDYN | AROLWG O'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS (KM) | +/- (ar y flwyddyn flaenorol) |
|---|---|---|
| **25/26 Chwarter 1af** | 28.2 | -1.2 |
| 24/25 Chwarter 1af | 29.4 | |
| **25/26 2il Chwarter** | 22.8 | -2.8 |
| 24/25 2il Chwarter | 25.6 | |
| **25/26 3ydd Chwarter** | 41.1 | -6 |
| 24/25 3ydd Chwarter | 47.1 | |
| **25/26 4ydd Chwarter** | 89.4 | -5.3 |
| 24/25 4ydd Chwarter | 94.7 | |

Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a arolygwyd yn 2025/26 – **181.5km**
Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a arolygwyd yn 2024/25 – **196.8km**

**<u>Teithiau Cerdded Gwledig yn Llyfryn Sir y Fflint</u>**

Yn ystod 2025-26 fe lansiodd y Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol lyfryn Teithiau Cerdded Gwledig ar ei newydd wedd. Mae'r llyfryn yn arddangos ystod amrywiol o rai o deithiau cerdded mwyaf hyfryd Sir y Fflint er mwyn i bobl eu mwynhau.



Julian Pellatt (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint), Stuart Jones (Swyddog Mynediad) a Huw Morgan (Is-gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint) (*Llun: Cyngor Sir y Fflint*)

**Julian Pellatt (Chairman of Flintshire Local Access Forum), Stuart Jones (Access Officer) and Huw Morgan (Vice-Chair of Flintshire Local Access Forum) *(Image: Flintshire Council)***

Yn ogystal â Bryniau Clwyd gall pobl archwilio'r glannau afonydd tawel, dyffrynnoedd coediog a thir fferm bryniog Llanasa, Ysceifiog, Sychdyn, Chwitffordd a Chaergwrle. Hefyd mae yna arfordiroedd sy'n llawn bywyd gwyllt yn Nhalacre sy'n parhau ar hyd aber Afon Dyfrdwy a straeon cyfoethog treftadaeth ddiwydiannol ym Mynydd Helygain, Dyffryn Maes Glas a Llwybr Treftadaeth Bwcle.

Mae'n cynnwys rhai o'r teithiau cerdded gorau yn y sir ac mae wedi ei ddarlunio â mapiau, cyfarwyddiadau llwybrau, lluniau ac ychydig o hanes wedi ei daflu i mewn hefyd.




Am ragor o wybodaeth am y Fforwm Mynediad Lleol a sut y gallwch gymryd rhan, cysylltwch â Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint:

rightsofway@flintshire.gov.uk